**MEMORANDWM CYDSYNIAD OFFERYN STATUDOL**

**GORCHYMYN DIWYGIO DEDDFWRIAETHOL (DATGELU DATA GOFAL CYMDEITHASOL OEDOLION) 2025**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 30A.2. Mae RhS30A yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol gerbron Senedd Cymru os yw un o Offerynnau Statudol y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

2. Mae Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol (Datgelu Data Gofal Cymdeithasol Oedolion) 2025 ("y Gorchymyn") yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ac fe'i gosodwyd gerbron Senedd y DU ar 21 Mai 2025. Mae i'w weld yma:

*Legislative Reform (Disclosure of Adult Social Care Data) Order 2025 (HTML) - GOV.UK*

3. Mae copïau o'r Gorchymyn a'r dogfennau cysylltiedig wedi'u gosod gerbron y Senedd heddiw ochr yn ochr â'r memorandwm hwn.

4. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud y Gorchymyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 1 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 ("LRRA 2006"). Ac eithrio gyda chytundeb y Senedd, ni chaiff y Gorchymyn wneud darpariaeth a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd os byddai'r ddarpariaeth wedi'i chynnwys yn un o Ddeddfau'r Senedd (o dan adran 11(1) o LRRA 2006).

5. Mae'r Gorchymyn yn cynnwys darpariaethau sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac sydd, felly, yn gofyn am gydsyniad y Senedd.

**Crynodeb o'r Offeryn a'i amcan**

6. Amcan y Gorchymyn yw diwygio Deddf Archwilio ac Atebolrwydd Lleol 2014 ("LAAA 2014") a Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ("PAWA 2004") er mwyn ailgychwyn rhannu data gofal cymdeithasol oedolion wedi'u paru ag awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr at ddibenion nodi ac atal twyll a gwallau.

7. Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol (y Fenter) yn dîm o fewn Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus, Swyddfa'r Cabinet sy'n gweithio ledled y DU mewn partneriaeth ag Archwilio Cymru, Archwilio'r Alban a Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon. Mae'r Fenter yn arbenigo mewn paru "data cleifion", gan

ddefnyddio ystod o gynhyrchion a thechnegau paru data i helpu i ganfod ac atal twyll. Pan gaiff data eu paru, mae'n dynodi y gall fod anghysondeb y mae angen ymchwilio iddo ymhellach. Bydd y Fenter yn rhannu ei hadroddiadau ar yr achosion o baru, sy'n nodi anghysondebau yn y data a gedwir, â chyrff cymwys. Mae hyn yn galluogi'r cyrff hynny i ymchwilio i weld a oes unrhyw dwyll wedi bod ac i gymryd camau adferol lle bo hynny'n briodol.

8. Mae adran 64C o PAWA 2004 (ac Atodlen 9 i LAAA 2014) yn diffinio "patient data" ("data cleifion") fel data sy'n ymwneud ag unigolyn a gedwir at ddibenion meddygol (o fewn ystyr adran 251 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006).

9. Hyd at 2016, diffiniwyd "medical purposes" ("dibenion meddygol") yn adran 251 i olygu dibenion unrhyw un neu ragor o'r canlynol "(a) preventative medicine, medical diagnosis, medical research, the provision of care and treatment and the management of health and social care services, and (b) informing individuals about their physical or mental health or condition, the diagnosis of their condition or their care and treatment."

10. Fodd bynnag, ym mis Ionawr 2016, diwygiwyd y diffiniad hwnnw gan Ddeddf Datganoli Dinasoedd a Llywodraeth Leol 2016, a ddiffiniodd "care" ("gofal") fel gofal sy'n cynnwys "local authority social care" ("gofal cymdeithasol awdurdodau lleol"). Cafodd y diwygiad i adran 251 o Ddeddf y GIG yr effaith o alinio data gofal cymdeithasol awdurdodau lleol â 'data cleifion' at ddibenion PAWA. Roedd hyn yn golygu na ellid ond rhannu canlyniadau paru data sy'n defnyddio data gofal cymdeithasol cleifion â 'chyrff perthnasol y GIG', ac na ellid eu rhannu ag awdurdodau lleol mwyach.

11. Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth i wrthdroi effeithiau anfwriadol y diwygiadau a wnaed i'r diffiniadau yn adran 251 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 y dibynnir arnynt yn PAWA 2004 a LAAA 2014 er mwyn caniatáu i'r Fenter rannu data gofal cymdeithasol oedolion wedi'u paru ag awdurdodau lleol unwaith eto.

**Y darpariaethau sydd i'w gwneud gan yr Offeryn y ceisir cydsyniad ar ei gyfer**

12. Bydd y Gorchymyn yn diwygio paragraff 4 o Atodlen 9 i Ddeddf Archwilio ac Atebolrwydd Lleol 2014 i ychwanegu darpariaeth sy'n eithrio data "adult local authority social care" ("gofal cymdeithasol oedolion awdurdodau lleol") wedi'u paru o gyfyngiad ar ddatgeliad. Bydd y Gorchymyn hefyd yn diwygio darpariaeth gyfatebol yn adran 64D o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

13. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y darpariaethau a ddisgrifir ym mharagraff 12 uchod yn gwneud darpariaeth o ran Cymru sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**Pam y mae'n briodol i'r OS wneud y ddarpariaeth hon**

14. Mae'r pŵer yn adran 1 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 yn arferadwy gan un o Weinidogion y Goron yn unig a chyda chydsyniad y Senedd yn unol ag adran 11 o'r Ddeddf honno.

15. Mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth y DU yn datgan bod twyll yn broblem sylweddol i ofal cymdeithasol oedolion mewn awdurdodau lleol yn ogystal â chyflwyno tystiolaeth bod yr awdurdodau lleol am ailddechrau paru data gofal cymdeithasol oedolion.

16. Dangosodd adroddiad ar ymgynghoriad y Fenter yn 2022 fod 78 o 84 (93%) o ymatebwyr yr awdurdodau lleol ledled Cymru, Lloegr a'r Alban yn dweud bod angen cryf i'r Fenter baru data gofal cymdeithasol oedolion. At hynny, dywedodd 93% hefyd fod twyll ym maes gofal cymdeithasol oedolion yn risg fawr ac roedd 94% yn cytuno y byddai paru data yn orfodol yn werthfawr i'w sefydliad.

17. Bydd y Gorchymyn yn gwrthdroi effeithiau anfwriadol y diwygiadau a wnaed i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 ar PAWA a LAAA a bydd yn caniatáu i ddata gofal cymdeithasol oedolion wedi'u paru gael eu rhannu unwaith eto, er mwyn nodi a mynd i'r afael â thwyll.

18. Rwyf o’r farn ei bod yn briodol ymdrin â’r darpariaethau hyn yn y Gorchymyn hwn. Mae'r pwerau i wneud y Gorchymyn hwn yn nwylo'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 1 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006. Fodd bynnag, o dan adran 11(1) o'r Ddeddf honno, ni chaiff y Gorchymyn wneud darpariaeth a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac eithrio gyda chytundeb y Senedd.

**Goblygiadau ariannol**

19. Ni ragwelir unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru. Disgwylir y bydd budd net i Awdurdodau Lleol Cymru, gyda'r fantais o atal twyll yn uwch na'r ffi weinyddu.

**Jayne Bryant AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**
**23 Mai 2025**